

# Ffurfiâu 'Bod'

Nodau:

1. Edrych ar y ffurfiâu isod...

- Presennol
- Perffaith
- Perffaith parhaol
- Amherffaith
- Gorberffaith
- Gorberffaith parhaol
- Amodol
- Amodol perffaith
- Amodol perffaith parhaol
- Dyfodol
- Gorffennol

2. Ymarfer newid o'r

- person 1<sup>af</sup> unigol > > > 3<sup>ydd</sup> person unigol
- person 1<sup>af</sup> unigol > > > person 1<sup>af</sup> lluosog



# Presennol

(Present: I am, You are, He/She is...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Rydw i...	Rydyn ni...
<b>2il</b>	Rwyt ti...	Rydych chi...
<b>3ydd</b>	Mae e / hi...	Maen nhw...

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Dydw i ddim...	Dydyn ni ddim...
<b>2il</b>	Dwyt ti ddim...	Dydych chi ddim...
<b>3ydd</b>	Dydy e / hi ddim...	Dydyn nhw ddim...

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Ydw i ...?	Ydyn ni... ?
<b>2il</b>	Wyt ti ...?	Ydych chi ...?
<b>3ydd</b>	Ydy e / hi...?	Ydyn nhw ...?

# Perfffaith

(Perfect: I have, You have, He/She has...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Rydw i wedi	Rydyn ni wedi
<b>2il</b>	Rwyt ti wedi	Rydych chi wedi
<b>3ydd</b>	Mae e / hi wedi	Maen nhw wedi

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Dydw i ddim wedi	Dydyn ni ddim wedi
<b>2il</b>	Dwyt ti ddim wedi	Dydych chi ddim wedi
<b>3ydd</b>	Dydy e / hi ddim wedi	Dydyn nhw ddim wedi

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Ydw i wedi?	Ydyn ni wedi?
<b>2il</b>	Wyt ti wedi ?	Ydych chi wedi?
<b>3ydd</b>	Ydy e / wedi hi?	Ydyn nhw wedi?



# Perffaith Parhaol



(Perfect Continuous: I have been , You have been, He/She has been...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Rydw i wedi bod	Rydyn ni wedi bod
<b>2il</b>	Rwyt ti wedi bod	Rydych chi wedi bod
<b>3ydd</b>	Mae e / hi wedi bod	Maen nhw wedi bod

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Dydw i ddim wedi bod	Dydyn ni ddim wedi bod
<b>2il</b>	Dwyt ti ddim wedi bod	Dydych chi ddim wedi bod
<b>3ydd</b>	Dydy e / hi ddim wedi bod	Dydyn nhw ddim wedi bod

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Ydw i wedi bod?	Ydyn ni wedi bod?
<b>2il</b>	Wyt ti wedi bod?	Ydych chi wedi bod?
<b>3ydd</b>	Ydy e / hi wedi bod?	Ydyn nhw wedi bod?

# Amherffraith

(Imperfect: I was, You were, He/She was...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Roeddwn i	Roedden ni
<b>2il</b>	Roeddet ti	Roeddech chi
<b>3ydd</b>	Roedd e / hi	Roedden nhw

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Doeddwn i ddim	Doedden ni ddim
<b>2il</b>	Doeddet ti ddim	Doeddech chi ddim
<b>3ydd</b>	Doedd e / hi ddim	Doedden nhw ddim

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Oeddwn i?	Oedden ni?
<b>2il</b>	Oeddet ti?	Oeddech chi?
<b>3ydd</b>	Oedd e / hi?	Oedden nhw?



# Gorberffaith



(Pluperfect: I had , You had, He/She had...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Roeddwn i wedi	Roedden ni wedi
<b>2il</b>	Roeddet ti wedi	Roeddech chi wedi
<b>3ydd</b>	Roedd e / hi wedi	Roedden nhw wedi

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Doeddwn i ddim wedi	Doedden ni ddim wedi
<b>2il</b>	Doeddet ti ddim wedi	Doeddech chi ddim wedi
<b>3ydd</b>	Doedd e / hi ddim wedi	Doedden nhw ddim wedi

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Oeddwn i wedi?	Oedden ni wedi?
<b>2il</b>	Oeddet ti wedi?	Oeddech chi wedi?
<b>3ydd</b>	Oedd e / hi wedi?	Oedden nhw wedi?



# Gorberffaith Parhaol



(Continuous Pluperfect: I had been , You had been , He/She had been...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Roeddwn i wedi bod	Roedden ni wedi bod
<b>2il</b>	Roeddet ti wedi bod	Roeddech chi wedi bod
<b>3ydd</b>	Roedd e / hi wedi bod	Roedden nhw wedi bod

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Doeddwn i ddim wedi bod	Doedden ni ddim wedi bod
<b>2il</b>	Doeddet ti ddim wedi bod	Doeddech chi ddim wedi bod
<b>3ydd</b>	Doedd e / hi ddim wedi bod	Doedden nhw ddim wedi bod

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Oeddwn i wedi bod?	Oedden ni wedi bod?
<b>2il</b>	Oeddet ti wedi bod?	Oeddech chi wedi bod?
<b>3ydd</b>	Oedd e / hi wedi bod?	Oedden nhw wedi bod?

# Amodol

(Conditional: I would, You would, He/She would...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Byddwn i	Bydden ni
<b>2il</b>	Byddet ti	Byddech chi
<b>3ydd</b>	Byddai fe / hi	Bydden nhw

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddwn i ddim	Fydden ni ddim
<b>2il</b>	Fyddet ti ddim	Fyddech chi ddim
<b>3ydd</b>	Fyddai fe / hi ddim	Fyddden nhw ddim

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddwn i?	Fyddden ni?
<b>2il</b>	Fyddet ti?	Fyddech chi?
<b>3ydd</b>	Fyddai fe / hi?	Fyddden nhw?



# Amodol Perffaith

(Perfect Conditional: I would have, You would have, He/She would have...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Byddwn i wedi	Bydden ni wedi
<b>2il</b>	Byddet ti wedi	Byddech chi wedi
<b>3ydd</b>	Byddai fe / hi wedi	Bydden nhw wedi

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddwn i ddim wedi	Fydden ni ddim wedi
<b>2il</b>	Fyddet ti ddim wedi	Fyddech chi ddim wedi
<b>3ydd</b>	Fyddai fe / hi ddim wedi	Fydden nhw ddim wedi

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddwn i wedi?	Fydden ni wedi?
<b>2il</b>	Fyddet ti wedi?	Fyddech chi wedi?
<b>3ydd</b>	Fyddai fe / hi wedi?	Fydden nhw wedi?

# Amodol Perffaith Parhaol

(Continuous Perfect Conditional: I would have been, You would have been...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Byddwn i wedi bod	Bydden ni wedi bod
<b>2il</b>	Byddet ti wedi bod	Byddech chi wedi bod
<b>3ydd</b>	Byddai fe / hi wedi bod	Bydden nhw wedi bod

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddwn i ddim wedi bod	Fyddden ni ddim wedi bod
<b>2il</b>	Fyddet ti ddim wedi bod	Fydddech chi ddim wedi bod
<b>3ydd</b>	Fyddai fe / hi ddim wedi bod	Fyddden nhw ddim wedi bod

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddwn i wedi bod?	Fyddden ni wedi bod?
<b>2il</b>	Fyddet ti wedi bod?	Fydddech chi wedi bod?
<b>3ydd</b>	Fyddai fe / hi wedi bod?	Fyddden nhw wedi bod?

# Dyfodol

(Future: I will be, You will be, He/She will be...)

Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Bydda i	Byddwn ni
<b>2il</b>	Byddi di	Byddwch chi
<b>3ydd</b>	Bydd e / hi	Byddan nhw

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddda i ddim	Fyddwn ni ddim
<b>2il</b>	Fydddi di ddim	Fyddwch chi ddim
<b>3ydd</b>	Fydd e / hi ddim	Fyddan nhw ddim

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fyddda i?	Fyddwn ni?
<b>2il</b>	Fydddi di?	Fyddwch chi?
<b>3ydd</b>	Fydd e / hi?	Fyddan nhw?



# Gorffennol

(Past: Bues i'n teithio > I travelled)



Cadarnhaol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Bues i	Buon ni
<b>2il</b>	Buest ti	Buoch chi
<b>3ydd</b>	Buodd e /hi	Buon nhw

Negyddol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fues i ddim	Fuon ni ddim
<b>2il</b>	Fuest ti ddim	Fuoch chi ddim
<b>3ydd</b>	Fuodd e /hi ddim	Fuon nhw ddim

Gofynnol	Unigol	Lluosog
<b>1af</b>	Fues i?	Fuon ni?
<b>2il</b>	Fuest ti?	Fuoch chi?
<b>3ydd</b>	Fuodd e / hi?	Fuon nhw?

# Newid o'r person **1af** i'r **3ydd** person

Cadarnhaol	Unigol		Lluosog	
<b>1af</b>	Rydw i		Rydyn ni	
<b>3ydd</b>	Mae e / hi		Maen nhw	


e.e

**Rydw i**'n mwynhau chwarae rygbi.

amser presennol person 1af unigol

**Mae hi**'n mwynhau chwarae rygbi

amser presennol 3ydd person unigol




**Rydyn ni**'n mynd i Abertawe.

amser presennol person 1af lluosog

**Maen nhw**'n mynd i Abertawe.

amser presennol 3ydd person lluosog





# Ymarfer 1: Newidwch y ferf ym mhob brawddeg o'r person 1af unigol i'r 3ydd person unigol.

1. Rydw i'n nofio bob wythnos.
2. Bydda i'n hwyr.
3. Roeddwn i'n byw yn Abertawe.
4. Rydw i wedi dysgu Cymraeg.
5. Byddwn i'n bwyta malwod!
6. Rydw i wedi bod yn canu'r piano ers dwy flynedd.
7. Roeddwn i wedi clywed y newyddion gan Ffion.
8. Bues i yn Llanelli dros y penwythnos.
9. Roeddwn i wedi bod yno am ddwy awr.



Gofalwch am  
amser y ferf

# Newid o'r unigol i'r lluosog

Cadarnhaol	Unigol		Lluosog
1af	Rydw i		Rydyn ni
3ydd	Mae e / hi		Maen nhw

e.e

**Rydw i'n** darllen bob nos.

amser presennol person 1af unigol



**Rydyn ni'n** darllen bob nos.

amser presennol person 1af lluosog

**Mae e'n** mynd i Abertawe.

amser presennol 3ydd person unigol




**Maen nhw'n** mynd i Abertawe.

amser presennol 3ydd person lluosog

## **Ymarfer 2:** Y tro hwn newidwch y ferf ym mhob brawddeg o'r person 1af unigol i'r person 1af lluosog.

1. Rydw i'n nofio bob wythnos.
2. Bydda i'n hwyr.
3. Roeddwn i'n byw yn Abertawe.
4. Rydw i wedi dysgu Cymraeg.
5. Byddwn i'n bwyta malwod!
6. Rydw i wedi bod yn canu'r piano ers dwy flynedd.
7. Roeddwn i wedi clywed y newyddion gan Ffion.
8. Bues i yn Llanelli dros y penwythnos.
9. Roeddwn i wedi bod yno am ddwy awr.



Gofalwch am  
amser y ferf



# Atebion

## Ymarfer 1

1. Mae e'n nofio bob wythnos.
2. Bydd hi'n hwyr.
3. Roedd e'n byw yn Abertawe.
4. Mae hi wedi dysgu Cymraeg.
5. Byddai fe'n bwyta malwod!
6. Mae hi wedi bod yn canu'r piano ers dwy flynedd.
7. Roedd e wedi clywed y newyddion gan Ffion.
8. Buodd hi yn Llanelli dros y penwythnos.
9. Roedd e wedi bod yno am ddwy awr.

## Ymarfer 2

1. Rydyn ni'n nofio bob wythnos.
2. Byddwn ni'n hwyr.
3. Roedden ni'n byw yn Abertawe.
4. Rydyn ni wedi dysgu Cymraeg.
5. Bydden ni'n bwyta malwod!
6. Rydyn ni wedi bod yn canu'r piano ers dwy flynedd.
7. Roedden ni wedi clywed y newyddion gan Ffion.
8. Buon ni yn Llanelli dros y penwythnos.
9. Roedden ni wedi bod yno am ddwy awr.